

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/This document is available in English

Adroddiad Ymgynghori

Y Tyllgoed a Llandaf: Heol Llantrisant (Plas Dŵr) – Rheoliadau Twmpathau Ffordd

Rhif Project: SPHTT15397

Cynhaliwyd ymgynghoriad ynglŷn â chynigion y cynllun uchod rhwng 5 Tachwedd a 26 Tachwedd 2018. Cafwyd 3 ymateb unigol yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn. Ceir crynodeb o'r pryderon a'r sylwadau isod, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Argymhelliad

Yng ngoleuni'r isod bwriedir bwrw ymlaen â'r cynllun yn unol â'r amlinelliad yn y cynllun ymgynghori.

Mater 1 – Pryderon Bwrdd Arafu

Lle bynnag y bydd byrddau arafu lled llawn yn cael eu cyflwyno rydym o hyd yn mynegi pryderon ynghylch eu proffil a'r cynnal a chadw arnynt. Ledled y ddinas ceir nifer o enghreifftiau lle mae proffil y byrddau yn amrywio cymaint fel eu bod yn effeithio ar ein cerbydau ac ansawdd ein profiad gyrru ni.

Mae gweithrediad parhaus dros y cyfyngiadau hyn yn prysuro dirywiad cydrannau ar y bws sy'n golygu cyfradd adnewyddu amlach a chost uwch i'n busnes. Maent hefyd yn cael effaith niweidiol ar ansawdd y profiad teithio, a gall hyn gael effaith negyddol ar nifer y siwrneiau y bydd pobl yn ei wneud gyda ni. Nodwn fod y pellter yn fychan rhwng y ddau fwrdd arafu arfaethedig.

Ymateb

Cydnabyddir bod byrddau arafu ac amrywiol oleddfau ar draws y Ddinas a cheisiwn ddarparu byrddau â goleddf gyson ar bob bwrdd arafu newydd. Er mwyn cynnig taith gyfforddus i deithwyr bws, caiff y byrddau hyn eu dylunio â goleddf o 1:16, gyda phellter o dros 40 metr rhwng y ddau ben, na ddylai felly beri difrod i gerbydau os eir drostynt ar gyflymder sy'n rhesymol.

Yn anffodus un o'r unig ddulliau sydd gennym o arafu traffig yw defnyddio byrddau arafu. Mae byrddau yn addas ar gyfer y lleoliad hwn er mwyn creu amgylchedd priffordd fwy diogel o boptu'r gylchfan fechan hon.

Ar ben hynny, dim ond un bwrdd arafu mawr sydd ar gyfer y groesfan a'r gylchfan ac felly dyw agosrwydd byrddau arafu ddim yn broblem. Yn ychwanegol, mae lleoliad ac uchder y gylchfan fechan wedi ei dylunio i alluogi bysus i basio drwy'r gyffordd heb fod eu holwynion yn rhedeg drosti.

Mater 2 – Materion Llwybr Beics

“Nodaf nad yw’n ymddangos bod hwn yn cynnwys blaenoriaeth i groesfannau ffordd ymyl ar gyfer defnydd troed/beics a rennir dros y fynedfa ac allanfa i’r garej. Byddai’r arfer gorau presennol o dan yr ATA yn awgrymu y dylid ystyried hynny. Hefyd, sut mae hyn yn cysylltu â’r seilwaith AT sy’n cael ei ddarparu drwy gyfrwng y datblygiad cysylltiedig â’r gylchfan?”

“Y llwybr rhwydwaith feicio, sef ei fod yn gorfod cyrraedd y safonau a nodir yn y Ddeddf Teithio Llesol

Mae’r cynigion yn dangos troedffordd/trac beicio a rennir, heb ddim mwy o fanylion. Diwygiwch y cynnig i ddangos cydymffurfiaeth â Chanllaw Dylunio’r Ddeddf Teithio Llesol DE024, Trac Beicio a Rennir â Cherddwyr ar hyd ymyl Ffordd. Noder y dylai’r stribed ymyl fod yn 0.5m o led o leiaf gan fod cyflymder y ffordd yn 30mya.

Mae’r cynnig yn dangos y llwybr beicio yn ildio ar y ddwy fynedfa i’r orsaf betrol. Mae DE024 yn datgan y dylai traciau beicio a rennir barhau ar draws tramwyfeydd preifat. Dengys DE025 sut mae trin y trac beicio i roi blaenoriaeth iddo ar ffyrdd ochr.

Diwygiwch y cynnig i ddangos y flaenoriaeth i’r trac beicio fel sy’n ofynnol.”

Ymateb

Parthed yr ymatebion i’r droedffordd a’r llwybr beicio a rennir, ein sylw cyntaf fyddai nad yw dyluniad y droedffordd a’r trac beicio yn destun i’r ymgynghoriad ond y nodir y sylwadau ac y byddem yn ymateb fel a ganlyn.

I ddechrau rhan o ganlyniad cais cynllunio yw hwn sydd yn dyddio cyn y Canllaw Dylunio Deddf Teithio Llesol ac felly mae’r cwmpas i amrywio’r dyluniad yn gyfyngedig i’r broses honno.


Mae mynedfa ac allanfa’r garej yn cael eu trin fel ffyrdd ochr ac nid tramwyfeydd preifat, oherwydd natur y mynediad cyhoeddus i’r cyfleuster ac hefyd y mathau o gerbydau a fydd yn ei ddefnyddio

Nodir yr argymhellion DE024 ar gyfer ymyl 0.5 metr, ond ystyrir y byddai yn fuddiol yn yr achos hwn. Byddai dyluniad DE025 yn gofyn am dir preifat ac felly ni ellir ei ystyried.

Nid yw union llwybr y traciau beicio o fewn y safle yn wybyddus eto, ond rhagwelir y byddant yn cyrchu lleoliadau’r ddwy groesfan Twcan yn hytrach na’r gylchfan fechan.

Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnig rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratōi i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 20788 522 i ofyn am gopi papur o'r adroddiad ymgynghori.



Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the plan shown.

Further details about this consultation are available at www.cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 20788 522 to request a paper copy of the post-consultation report.